CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

Dyddiad y cyfarfod: **15 Hydref 2019**

Teitl: **Caniatáu hawddfraint mewn perthynas ag is-orsaf trydan newydd yn Ysgol Uwchradd Aberaeron**

Diben yr adroddiad: **Ystyried caniatáu hawddfraint a gofynion Deddf Elusennau 2011 mewn perthynas â gwarediadau**

Er penderfyniad

1. CEFNDIR

1.1 Yn sgil trafodion gyda Dyffryn Teifi a Bro Teifi yn Llandysul yn y gorffennol, bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor yn ymddiriedolwr Cronfa Addysg Dechnegol a Chanolradd Sir Aberteifi. Mae'r Gronfa yn dal rhannau o dir sydd wedi'u cynnwys o fewn sawl Ysgol Uwchradd Sirol o dan ymddiriedolaeth, a hynny er mwyn eu cadw'n ysgolion i fechgyn a merched yn yr ardaloedd hynny.

1.2 Yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn mae cynllun Trawsgludiad o 1876, ac mae'r ardal a ddelir o dan ymddiriedolaeth wedi'i nodi'n goch. Caffaelwyd tir ychwanegol o gwmpas yr ardal hon dros y degawdau i ffurfio safle presennol yr ysgol, ond nid yw'r tir ychwanegol a brynwyd yn cael ei ddal o dan ymddiriedolaeth, yn hytrach, mae'n eiddo i'r Cyngor yn ei gapasiti corfforaethol.

1.3 Mae gan Western Power is-orsaf eisoes ar safle'r ysgol yn Aberaeron, ond er mwyn gwella'r ddarpariaeth seilwaith yn yr ardal, daethpwyd i gytundeb rhwng y Cyngor yn ei gapasiti corfforaethol a Western Power er mwyn adleoli'r is-orsaf i leoliad newydd ar dir yr ysgol, a bwriedir ymrwymo i brydles newydd am 30 mlynedd gyda rhent o £80 y flwyddyn. Gwelir y cynllun arfaethedig ar gyfer y brydles ("y Cynllun") yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn, ac mae safle'r is-orsaf yn nwyrain tir yr ysgol wedi'i nodi'n binc, y ceblau wedi'u nodi'n linellau brown, a'r hawddfraint mynediad wedi'i nodi'n wyrdd golau a gwyrdd tywyll.

2. GOBLYGIADAU I'R YMDDIRIEDOLAETH

2.1 Er ei bod yn anodd gwybod beth yw union ffiniau tir yr ymddiriedolaeth oherwydd y ffaith y lluniwyd yr 1876 â llaw, ac oherwydd bod y safle wedi esblygu ers 1876 ac felly mae nodweddion gwahaniaethu'r ffiniau wedi diflannu, y gred yw bod y ceblau brown ar y Cynllun a'r hawddfraint mynediad a nodir yn wyrdd golau a gwyrdd tywyll ar y Cynllun yn ffurfio rhan o'r tir sy'n eiddo i'r Cyngor yn ei gapasiti corfforaethol ac nad ydynt ar dir yr ymddiriedolaeth (fodd bynnag maent yn agos at, os nad ar ffin y tir). Fodd bynnag, fel mater o arfer, mae Western Power yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfamodi a chyfyngu ei weithgarwch i stribed 2 fedr o hyd naill ochr i'r ceblau a ddangosir yn frown a'r mynediad a ddangosir yn wyrdd golau a gwyrdd tywyll. Credir bod rhan o'r ardal 2 fedr yn cynnwys rhan o dir yr ymddiriedolaeth ar y ffiniau gogleddol a gorllewinol.

2.2 Mae'r cyfyngiadau fel a ganlyn:

- ni fydd y Cyngor, heb ganiatâd ysgrifenedig Western Power, yn cloddio o dan nac yn codi lefel y tir, nac yn adeiladu nac yn caniatáu i unrhyw adeilad neu strwythur gael ei godi, nac yn caniatáu unrhyw beiriannau na deunyddiau o unrhyw fath o fewn y stribed 2 fedr, ac eithrio unrhyw fannau parcio ceir, ffyrdd, troetffyrdd, neu adeiladau a nodir ar y Cynllun,

- ni fydd y Cyngor, heb ganiatâd ysgrifenedig Western Power, yn plannu unrhyw goed, cloddiau, llwyni, coedlannau na choedwigoedd o fewn y stribed 2 fedr, a bydd gan Western Power ganiatâd i dorri a/neu symud unrhyw goed, cloddiau, llwyni, coedlannau neu goedwigoedd o fewn y stribed 2 fedr os yw Western Power yn credu yr effeithir ar weithrediad neu ddiogelwch y llinellau trydan tanddaearol, ond er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y paragraff hwn yn berthnasol i blannu cnydau; a

- pheidio â chaniatáu na gwneud unrhyw beth ar dir yr ymddiriedolaeth a fydd yn amharu ar allu Western Power i arfer ei hawliau o dan y brydles, neu a fydd yn achosi difrod i'r eiddo a brydlesir a/neu'r llinellau trydan tanddaearol neu'n cael effaith ar berfformiad yr is-orsaf a/neu'r llinellau trydan tanddaearol, ac os bydd difrod o'r fath bydd yn rhaid hysbysu Western Power ar unwaith.

2.3 Mae hawliau hefyd i'w caniatáu yn y brydles i Western Power a fydd yn effeithio ar dir yr ymddiriedolaeth, sef:

- hawl ar bob adeg i gael mynediad at a bod ar gymaint o dir yr ymddiriedolaeth ag sy'n rhesymol angenrheidiol (gyda cherbydau, offer neu ddeunyddiau neu hebddynt) at ddibenion codi, ac yna at ddibenion archwilio, cynnal, atgyweirio, adnewyddu, ailadeiladu ac ychwanegu at yr eiddo a brydlesir;
- hawl i gael mynediad at dir yr ymddiriedolaeth ar bob adeg resymol (ac eithrio mewn argyfwng lle gellir gweithredu'r hawl hon ar bob adeg) a chwalu cymaint o arwyneb y tir ag sy'n rhesymol angenrheidiol o dro i dro (gyda cherbydau, offer neu ddeunyddiau neu hebddynt) at ddibenion arfer yr hawliau a nodir yn y brydles, a;
- hawl i'r tir gael ei gefnogi a'i ddiogelu gan dir yr ymddiriedolaeth gerllaw ac unrhyw adeiladau ar y tir hwnnw, er mwyn cefnogi a chynnal yr eiddo a brydlesir ac unrhyw beiriannau trydanol Western Power ar yr eiddo hwnnw a'r llinellau trydanol tanddaearol.

2.4 Oherwydd y bydd y brydles yn effeithio ar dir yr ymddiriedolaeth drwy gyfyngu ar ei ddefnydd a chaniatáu hawliau dros dir yr ymddiriedolaeth, mae angen i'r ymddiriedolaeth ystyried hyn. Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio yr ymrwymwyd i brydles newydd ar gyfer yr is-orsaf ym Mro Teifi pan adeiladwyd yr ysgol newydd, a bod y Pwyllgor hwn wedi cymeradwyo caniatáu hawddfreintiau er budd tenant yr is-orsaf. Roedd achos Bro Teifi yn cynnwys caniatáu hawl i gerbydau ddefnyddio'r brif ffordd fynediad dros dir yr ymddiriedolaeth, ac felly roedd y cyfyngiadau a'r hawliau ar raddfa fwy na'r rheini y cyfeirir atynt yn yr achos hwn. Oherwydd y byddai'r ysgol yn elwa o gael gwell seilwaith ar y safle, ac oherwydd ei bod yn defnyddio'r is-orsaf, mae'r awdur yn cynghori'r ymddiriedolwr y byddai'r cynnig i'r ymddiriedolaeth ymrwymo i'r brydles yn cyd-fynd ag amcanion elusennol yr ymddiriedolaeth hon gan mai'r nod yw cadw'r safle yn ysgol, felly byddai hynny er lles pennaf yr elusen hefyd.

2.5 Mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth hefyd sicrhau y byddai'r cyhoedd yn elwa o unrhyw gamau y mae'n eu cymryd. Gan nad yr ysgol yn unig sy'n defnyddio'r is-orsaf, ond y gymuned ehangach hefyd, cynghorir bod budd cyhoeddus yma.

3. Y WEITHDREFN

3.1 Pe bai'r ymddiriedolaeth yn cytuno bwrw ymlaen â'r mater hwn, yna mae angen cydymffurfio â'r gofynion o dan adran 117-121 Deddf Elusennau 2011. O dan adran 119 y Ddeddf, cyn y gellir ymrwymo i warediad (sy'n cynnwys caniatáu hawliau, yn yr un modd â'r achos hwn), mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr gael ac ystyried adroddiad ysgrifenedig ar y gwarediad arfaethedig gan syrfëwr cymwysedig sy'n gweithredu ar ran yr ymddiriedolaeth a hysbysebu'r gwarediad arfaethedig am y cyfnod ac yn y modd a argymhellir yn adroddiad y syrfëwr (os gwneir argymhelliad). Bydd yr adroddiad hefyd yn cwmpasu unrhyw beth arall sy'n ofynnol gan Reoliadau Elusennol (Adroddiadau Syrfewyr Cymwysedig) 1992 ar gyfer adroddiadau o'r fath. Oherwydd bod gwrthdaro buddiannau rhwng y Cyngor yn ei gapasiti corfforaethol a'r Cyngor fel ymddiriedolwr, cynghorir bod yr ymddiriedolaeth yn caffael adroddiad syrfëwr annibynnol gan y Prisiwr Dosbarth. Mae'r Cyngor yn ei gapasiti corfforaethol wedi cytuno talu am gost yr adroddiad. Unwaith y bydd yr adroddiad yn barod, bydd yn dod gerbron y Pwyllgor hwn er mwyn ei ystyried.

3.2 Yn ogystal, gan fod hon yn ymddiriedolaeth sydd â thir wedi'i ddynodi ar gyfer pwrpas penodol, mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth hefyd gydymffurfio ag adran 121 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwr hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â'r gwarediad arfaethedig a gwahodd iddynt gyflwyno sylwadau i'r ymddiriedolwr o fewn amserlen na ddylai fod yn llai nag un mis o ddyddiad yr hysbysiad. Oherwydd hynny, awgrymir gosod hysbysiad cyhoeddus ar y safle, ac awgrymir bod yr ymddiriedolwr yn gofyn a yw'r Cyngor Tref yn fodlon gosod copi o'r hysbysiad ar ei hysbysfwrdd cyhoeddus.

3.3 Mae'n bosib y bydd y Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwr wneud cais am ganiatâd ganddynt ar gyfer y gwarediad o dan adran 117, felly unwaith yr ymgymerir â'r camau cyfreithiol uchod, gall yr ymddiriedolwr ystyried y camau nesaf.

Argymhellion: Penderfynu bod swyddogion yn gwneud y canlynol ar ran yr ymddiriedolwr:

a) cyfarwyddo'r Prisiwr Dosbarth i lunio adroddiad ar y gwarediad arfaethedig i gwmpasu holl ofynion Rheoliadau Elusennau (Adroddiadau Syrfewyr Cymwysedig) 1992 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.1 yn yr adroddiad uchod;
b) gosod rhybudd o un mis ar safle Ysgol Uwchradd Aberaeron a darparu copi i'r Cyngor Tref os ydynt yn fodlon.

Rheswm dros yr argymhellion: Er budd yr ymddiriedolaeth, a fydd yn elwa o well seilwaith ar y safle, ac er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud ag elusennau.

Atodiadau:		Atodiad 1 – cynllun o dir yr ymddiriedolaeth o 1876; Atodiad 2 – y cynllun arfaethedig ar gyfer Prydles yr Is-orsaf;
Pennaeth Gwasanaeth:	**y**	Elin Prysor
Swyddog Adrodd:		Louise Harries – Cyfreithwraig (ar ran yr ymddiriedolaeth)
Dyddiad:		19 Medi 2019